OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1025

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo mewn Meddiannaeth Gyffredin) (Cymru) 2022

**5.** Yn rheoliad 4 mae dau hereditament yn gyffiniol—

(a) os yw rhan neu'r cyfan o wal, ffens, neu ddull arall o amgáu un hereditament yn ffurfio rhan neu'r cyfan o wal, ffens, neu ddull arall o amgáu'r hereditament arall, neu

(b) os yw'r hereditamentau ar loriau nesaf at ei gilydd mewn adeilad, ac mae rhan neu'r cyfan o lawr un hereditament yn union uwchben rhan neu'r cyfan o nenfwd yr hereditament arall,

ac ni chaiff hereditamentau a feddiennir gan yr un person neu sy'n eiddo i'r un person eu hatal rhag bod yn gyffiniol o dan baragraff (a) neu (b) dim ond am fod man rhyngddynt nas meddiennir gan y person hwnnw neu nad yw'n eiddo iddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 5 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo mewn Meddiannaeth Gyffredin) (Cymru) 2022, Adran 5.